

Appendix

32G

Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

28 Hydref 2011

Parthed; Cwyn yn erbyn y Cynghorydd Elwyn Schofield, Cyngor Sir Ynys Môn

Annwyl Syr,

Mae'r Cynghorydd Elwyn Schofield wedi cysylltu gyda mi yn gofyn i mi os byddwn yn fodlon ysgrifennu adroddiad i chi fel tyst, ynglyn â chwyn yr ydych yn ymchwilio iddi am gyfarfod dewis Cadeirydd i Brif Pwyllgor Sgriwtini 4ydd Chwefror 2010.

Rwyf wedi cytuno y byddaf yn ysgrifennu adroddiad fydd yn adlewyrchu hyd gorau fy ngallu a'm cof yr hyn a ddigwyddodd ac a ddatblygodd yn y cyfarfod hwnnw a'r cyfarfod gydag aelodau'r pwyllgor y diwrnod cynt.

Mi es i'r Cyngor Sir i drafod enwebiad Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini. Fe gytunais i fynychu oherwydd roeddwn yn teimlo ei fod yn gam adeiladol i drafod, o gofio'r amser cythryblus roeddem ni yn ei wynebu yn y Cyngor, a rhai ohonom yn teimlo'r straen, ac ofn yn ein rheoli (ofn cael ein barnu am gwestiynu, datgan barn, ac am wneud penderfyniadau ayb).

Os dwi'n cofio'n iawn, yn bresennol yn y cyfarfod gyda mi i drafod enwebu'r cadeirydd y diwrnod cynt oedd Cyngorydd John Penri Williams, Elwyn Schofield, Eric Roberts, Eric Jones, a'r Cyngorydd Gwilym Jones wedi ymddiheuro.

Cytunwyd mai'r Cynghorydd Cliff Everett o'r Blaidd Lafur, a oedd yn aelod o'r wrthblaid oedd ein hargymhelliad i'r gadair. Mi oedd enw'r Cynghorydd Hywel Eifion Jones wedi ei grybwyll i gymryd y gadair gan ei grŵp, ond nid oedd aelodau'r Pwyllgor yn hapus gyda hynny. Mi oedd y rhai yn bresennol yn fwy nac hapus i gynnig y gadair i aelod o'r wrthblaid ond bod y pwyllgor gyda'r hawl i ddewis. Os nad oedd y Cynghorydd Cliff Everett yn fodlon cymryd y gadair, fe gynnigwyd y Cynghorydd Eric Roberts fel yr ail ddewis. Wrth wneud hyn roeddwn yn deall ein bod yn dilyn rheolau Cyfansoddiad y Cyngor Sir, (Rhif 3.4.2 yn y Cyfansoddiad) ond hefyd yn parchu dymuniad y Cyngor i gynnig y gadair i aelod o'r Wrthblaid yn y lle cyntaf.

Mi gytunodd yr aelodau oedd yn bresennol ar yr argymhelliad yma i'w gynnig yn y Pwyllgor Sgriwtini y diwrnod canlynol, ond y byddai'r Cynghorydd John Penri Williams yn atal ei bleidlais ar y diwrnod.

Ni chefais gyfle i drafod cynnwys y drafodaeth yma gydag Arweinydd fy ngrwp sef Cynghorydd Bob Parry y noson honno, ond roeddwn yn ei gwrdd yn y Rovacabin ar safle Parc Mount yn Llangefni y bore canlynol mewn cyfarfod i drafod dyfodol Clwb Bowlio a chyrtiau tennis Llangefni. Fe drefnais i gael sgwrs gyda Cyng. Bob Parry ar ôl y cyfarfod. Roedd yntau yn awyddus i drafod hefyd ar ôl cael sgwrs gyda'r Cyng. John Penri Williams ar y ffôn y noson cynt.

Cynhaliwyd y drafodaeth yng nghar Cyng. Bob Parry ym maes parcio Park Mount. Mi amlinellais y drafodaeth a gafwyd yn y cyfarfod y noson cynt, ac ar ddiwedd y briff, hyn oedd ei ymateb: "RHIAN, dwyt i ddim i fotio i Eifion Jones (Cynghorydd Hywel Eifion Jones), dwi'n deud hynna wrthat ti. Does gen i ddim problem i chi gynnig Cliff neu Eric Roberts". Mi gafodd y datganiad yna ei wneud mewn llais uchel pendant ond nid bygythiol. Gyda sel bendith fy arweinydd, roeddwn yn hapus i lynu at yr argymhelliad yna.

Yn y cyfarfod ei hun i ethol cadeirydd newydd, fe gynnigwyd y Cyng. Cliff Everett i'r gadair ond fe wrthododd. Yna fe gynnigwyd y Cyng. Eric Roberts. Oherwydd anghytundeb yn dilyn hyn fe gynnigodd Mr Richard Parry Jones i'r pwyllgor ohirio'r penderfyniad er mwyn i'r grwpiau drafod y mater ymhellach. Cytunwyd ar hyn ac fe gariodd y pwyllgor ymlaen o dan gadeiryddiaeth yr is gadair. Felly, ni etholwyd neb i'r gadair yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw.

Dyma gofnod cywir o'r hyn a ddigwyddodd dros y ddau diwrnod dan sylw.

Hoffwn yma hefyd grybwyll rhywfaint o gefndir i'r digwyddiadau yn dilyn cyfarfod grwp Plaid Cymru gyda'r Arweinydd Cyng. Bob Parry pan cyflwynwyd 'Terms of Engagement' Am Gyngrheirio Gwleidyddol i Sicrhau Dyfodol Cyngor Sir Ynys Môn'.

Fi oedd Cadeirydd y grŵp ar y pryd ond ni chefais ddim rhagrybudd o'r telerau nac am unrhyw gynghreirio o flaen llaw. Fe geisiodd yr Arweinydd i gael gytundeb i'r holl grŵp arwyddo'r telerau heb unrhyw drafodaeth gydag aelodau Pwyllgor Etholaeth Plaid Cymru na'r Cyngor Cenedlaethol. Fe roddodd cynnwys y ddogfen ddrafft yma gryn sioc a braw i mi, yn enwedig y ddau gymal o dan Termâu'r Cyngrheirio oedd yn enwi dau Gynghorydd Sir sef Cynghorydd Elwyn Schofield a Barry Durkin, a'r cymal oedd yn cyfeirio y byddai'r Cynghrair yn dewis 'chwil' i sicrhau bod yr aelodau yn glynu at delerau'r cytundeb.

Roedd sawl rheswm am wrthwynebu a gwrthod arwyddo'r fath ddogfen:

1. Roeddem yn aelodau o Blaid wleidyddol ac nid oedd hawl ganddom i arwyddo unrhyw gytundeb o'r fath heb ganiatad Pwyllgor Etholaeth Ynys Môn a'r Cyngor Cenedlaethol
2. Nid oeddwn am gael fy nghlymu i wleidyddia personol yn erbyn aelodau'r Cyngor nac yn enw Plaid Cymru
3. Ni rhoddwyd unrhyw dystiolaeth ger ein bron am y rhesymau dros enwi'r ddau aelod
4. Ni chefais ateb gan neb pan ofynnais beth oedd y cwynion yn erbyn y ddau aelod
5. Mi oedd gan y grŵp 'chwil' o dan rheolau Plaid Cymru ac ni chaniateir i aelodau Plaid Cymru fod yn ddarostyngedig i 'chwil' o grwpiau eraill
6. Roeddwn i'n mynnu bod rhaid trafod y materion yma gyda'r Blaid yn lleol a chenedlaethol
7. Roedd canllawiau a rheolau mewn bodolaeth o fewn gweithdrefnau'r Cyngor Sir i ddelio gydag unrhyw gwynion yn erbyn unrhyw Gynghorydd
8. Teimlwn bod y ddogfen yma yn rhyw fath o 'witch hunt' yn erbyn y ddau gynghorydd a bod pwysau aruthrol yn cael ei roi arnom i arwyddo er mwyn i

Cynhaliwyd y drafodaeth yng nghar Cyng. Bob Parry ym maes parcio Park Mount. Mi amlinellais y drafodaeth a gafwyd yn y cyfarfod y noson cynt, ac ar ddiwedd y briff, hyn oedd ei ymateb: "RHIAN, dwyt i ddim i fotio i Eifion Jones (Cynghorydd Hywel Eifion Jones), dwi'n deud hynna wrthat ti. Does gen i ddim problem i chi gynig Cliff neu Eric Roberts". Mi gafodd y datganiad yna ei wneud mewn llais uchel pendant ond nid bygythiol. Gyda sel bendith fy arweinydd, roeddwn yn hapus i lynu at yr argymhelliad yna.

Yn y cyfarfod ei hun i ethol cadeirydd newydd, fe gynigwyd y Cyng. Cliff Everett i'r gadair ond fe wrthododd. Yna fe gynigwyd y Cyng, Eric Roberts. Oherwydd anghytundeb yn dilyn hyn fe gynigiodd Mr Richard Parry Jones i'r pwyllgor ohirio'r penderfyniad er mwyn i'r grwpiau drafod y mater ymhellach. Cytunwyd ar hyn ac fe gariodd y pwyllgor ymlaen o dan gadeiryddiaeth yr is gadair. Felly, ni etholwyd neb i'r gadair yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw.

Dyma gofnod cywir o'r hyn a ddigwyddodd dros y ddau diwrnod dan sylw.

Hoffwn yma hefyd grybwyll rhywfaint o gefndir i'r digwyddiadau yn dilyn cyfarfod grwp Plaid Cymru gyda'r Arweinydd Cyng. Bob Parry pan cyflwynwyd 'Terms of Engagement' Am Gyng Rheirio Gwleidyddol i Sicrhau Dyfodol Cyngor Sir Ynys Môn'.

Fi oedd Cadeirydd y grŵp ar y pryd ond ni chefais ddim rhagrybudd o'r telerau nac am unrhyw gynghreirio o flaen llaw. Fe geisiodd yr Arweinydd i gael gytundeb i'r holl grŵp arwyddo'r telerau heb unrhyw drafodaeth gydag aelodau Pwyllgor Etholaeth Plaid Cymru na'r Cyngor Cenedlaethol. Fe roddodd cynnwys y ddogfen ddrafft yma gryn sioc a braw i mi, yn enwedig y ddau gymal o dan Ternau'r Gyng Rheirio oedd yn enwi dau Cynghorydd Sir sef Cynghorydd Elwyn Schofield a Barry Durkin, a'r cymal oedd yn cyfeirio y byddai'r Cynghrair yn dewis 'chwip' i sicrhau bod yr aelodau yn glynu at delerau'r cytundeb.

Roedd sawl rheswm am wrthwynebu a gwrthod arwyddo'r fath ddogfen:

1. Roeddem yn aelodau o Blaid Wleidyddol ac nid oedd hawl ganddom i arwyddo unrhyw gytundeb o'r fath heb ganiatad Pwyllgor Etholaeth Ynys Môn a'r Cyngor Cenedlaethol
2. Nid oeddwn am gael fy nghlymu i Wleidyddiaeth Personol yn erbyn aelodau'r Cyngor nac yn enw Plaid Cymru
3. Ni rhoddwyd unrhyw dystiolaeth ger ein bron am y rhesymau dros enwi'r ddau aelod
4. Ni chefais ateb gan neb pan ofynnais beth oedd y cwynion yn erbyn y ddau aelod
5. Mi oedd gan y grŵp 'chwip' o dan rheolau Plaid Cymru ac ni chaniateir i aelodau Plaid Cymru fod yn ddarostyngedig i 'chwip' o grwpiau eraill
6. Roeddwn i'n mynnu bod rhaid trafod y materion yma gyda'r Blaid yn lleol a chenedlaethol
7. Roedd canllawiau a rheolau mewn bodolaeth o fewn gweithdrefnau'r Cyngor Sir i ddelio gydag unrhyw gwynion yn erbyn unrhyw Cynghorydd
8. Teimlwn bod y ddogfen yma yn rhyw fath o 'witch hunt' yn erbyn y ddau Cynghorydd a bod pwysau aruthrol yn cael ei roi arnom i arwyddo er mwyn i

hynny ddylanwadu pan fyddai cwynion yn cael eu casglu yn erbyn y ddau cynghorydd

Yng nghyfarfod blynyddol Pwyllgor Etholaeth Plaid Cymru yn Llangefni 11 Mehefin 2010 fe gyflwynais y ddogfen i'r aelodau gan olrhain yr amgylchiadau rwyf wedi eu disgrifio uchod. Fe gytunodd yr aelodau gydag fy safbwynt na ddylem fel aelodau arwyddo'r fath ddogfen oedd yn enwi dau aelod o'r Cyngor Sir (roedd yn cael ei weld fel ymosodiad personol) a hynny heb unrhyw fath o dystiolaeth. Mi gytunwyd hefyd na ellir dewis 'chwip' o grŵp arall ar grwp Plaid Cymru. Cytunwyd na fyddai'r grŵp yn cysylltu ei hun gyda'r ddogfen, ac mai wrth bolisiau clir y dylai unrhyw gyngrheirio gael ei ystyried oedd yn cydfynd gyda maniffesto'r Plaid.


Fe gyfeirwyd y ddogfen drachefn i Gyngor Cenedlaethol y Plaid a'u cyfarwyddyd oedd bod rhaid tynnu allan y ddau gymal oedd yn enwi Cynghorwyr a dewis chwip. Er i ddogfen bolisi gael ei llunio i'r Gynghrair gan un o gynghorwyr Plaid Cymru ni chafodd y ddau gymal dadleuol a grybwyllir uchod eu dileu.

Mewn cyfres o gyfarfodydd 'Hawl i Holi' gan aelodau Pwyllgor Gwaith y Cyngor Sir gydag aelodau'r cyhoedd ar draws Ynys Môn, cefais wybod bod y ddogfen wedi ei thrafod gan Arweinydd y Cyngor Sir ar y pryd sef Cynghorydd Clive McGregor, a bod rhestr o'r Cynghorwyr oedd wedi arwyddo a chefnogi'r ddogfen wedi ei ddangos yn gyhoeddus. Roedd fy enw i wedi ei chynnwys ar y rhestr. Roedd cynnwys fy enw ar y rhestr nid yn unig yn camarwain y cyhoedd ond yn gelwydd. Er i mi gwyno am hyn, mi ymddangosodd y rhestr drachefn.

Yn ddiddorol, fe ofynnodd Cadeirydd y Bwrdd Adfer Elan Closs Stephens am sgwrs ar ôl Cyngor Sir llawn ar ol i'r newydd dorri fy mod wedi gwrthwynebu'r ddogfen, ac fy mod wedi datgelu safiad Plaid Cymru yn swyddogol. Cefais fy longyfarch ganddi am fy safiad ac fe gyfaddefodd ei bod hi a gweddill y Bwrdd Adfer wedi bod yn hollol anhapus gyda'r ddogfen ac wedi gofyn i Mr David Bowles Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro dynnu'r ddogfen yn ôl, ond yn ofer.

Y rheswm dwi wedi adrodd y digwyddiadau uchod i chi yw oherwydd fy mod eisiau i chi fod yn ymwybodol o'r hinsawdd hyll a fodolai ar y pryd, ar pwysau a roddwyd ar aelodau i eithrio dau gynghorydd o lif gwaith y cyngor heb unrhyw gyhuddiad yn eu herbyn yn cael ei ddatgelu, nac unrhyw dystiolaeth yn cael ei rhoi gerbron. Roedd ymdrech fawr ar droed i eithrio'r ddau gynghorydd heb roi cyfle iddynt amddiffyn ei hunain mewn unrhyw ffordd. Nid oeddwn am gael fy nghysylltu mewn unrhyw ffordd gyda threfn anghyfansoddiadol, anheg ac efallai anghyfreithiol.

Arwyddwyd:



Cynghorydd Rhian Medi
Rhosgerdd,
14 Maes y Coed,
Talwrn,
Llangefni,
Ynys Mon
LL77 7UA

Public Services Ombudsman for Wales
1 Old Field Road
Pencoed
Bridgend CF35 5LJ

28 October 2011

Dear Sir,

RE: A complaint against Councillor Elwyn Schofield, Anglesey County Council

Councillor Elwyn Schofield has asked me whether I would be willing to write a report to you as a witness regarding a complaint you are investigating concerning the appointment of Chair of the Corporate Scrutiny Committee on 4 February 2010.

I have agreed that I will write a report that reflects to the best of my ability and my memory what happened and developed at that meeting and the meeting with the members of the Committee the previous day.

I went to the County Council to discuss the nomination of Chair of the Scrutiny Committee. I agreed to be present because I thought that it was a constructive step towards discussion, whilst bearing in mind the troubled time we were facing at the Council, with some of us feeling the pressure, and with fear ruling us (fear of being criticised for questioning, declaring our opinions, and for making decisions etc.)

If I remember correctly, with me at that meeting the previous day to discuss the Chair's nomination were Councillors John Penri Williams, Elwyn Schofield, Eric Roberts, Eric Jones, with Councillor Gwilym Jones having apologised for his absence.

It was agreed that Councillor Cliff Everett from the Labour Party, who was a member of the opposition, would be our recommendation as Chair. Councillor Eifion Jones had also been mentioned by his group to take the Chair, but the Committee members were not happy with that. Those who were present were more than willing for a member of the opposition to be Chair, as long as the Committee had the right to choose. If Councillor Cliff Everett was not prepared to take the Chair, Councillor Eric Roberts was proposed as the second choice. In doing this, I realised fully that we were not only adhering to the Council's Constitution (No. 3.4.2 of the Constitution) but also respecting the Council's wishes of offering the Chair to a member of the Opposition in the first place.

The members who were present agreed that the recommendation would be proposed in the Scrutiny Committee the next day, but that Councillor John Penri Williams would abstain from voting on the day.

I did not have an opportunity to discuss our deliberations with my Group Leader, Councillor Bob Parry, that evening, but I was due to be at a meeting with him the following morning in the Rovacabin, Parc Mount, to discuss the future of Llangefni Bowls Club and tennis courts. I arranged to have a word with Councillor Bob Parry after the meeting. He was also keen to discuss things after having had a telephone conversation with Councillor John Penri Williams the previous evening.

We had the discussion in Councillor Bob Parry's car in the parking ground at Park Mount. I outlined the discussion we had at the meeting the previous evening, and at the end of the brief, this was his response "*Rhian, you are not to vote for Eifion Jones (Councillor Hywel Eifion Jones) I'm telling you that. I've got no problem with you nominating Cliff or Eric Roberts*". He made that statement in a loud and positive voice but it was not threatening. With the seal of approval of my leader, I was happy to adhere to that recommendation.

At the meeting to elect a new Chair, Councillor Cliff Everett was proposed as Chair, but he refused. Then Councillor Eric Roberts was put forward. Because of disagreement following this, Mr Richard Parry Jones recommended that the Committee should defer the decision so that the groups could discuss the matter further. We agreed to that and then the Committee proceeded with its business with the Vice-Chairman in the Chair. So no one was elected Chairman at the meeting that day.

That is a correct record of what happened over the two days in question.

I would also like to give some of the background to the events that followed a meeting of the Plaid Cymru Group with its Leader, Councillor Bob Parry when "Terms of Reference for a Political Alliance to safeguard the future of Anglesey Council" was presented.

I was Chair of the group at the time, but I was not given any warning beforehand of these terms or about any alliance that was to be formed. The Leader tried to get the agreement so that the whole group would sign the terms without any discussion with the Plaid Cymru Electoral Committee or the National Council. The contents of this draft document gave me quite a shock, especially two clauses under the "Terms of the Alliance" which named two County Councillors – Councillor Elwyn Schofield and Barry Durkin, and also the clause which stated that the Alliance would choose a 'whip' to ensure that its members would abide with the terms of the agreement.

There were many reasons for objecting and refusing to sign such a document:

1. We were members of a political party and we had no right to sign any such agreement without the consent of the Anglesey Electoral Committee and the National Council.
2. I was not going to be tied down in personal politics against Council members nor in Plaid Cymru's name.
3. No evidence was put before us regarding the reasons for naming the two members.
4. Nobody gave me an answer when I asked what the complaints against the two members were.
5. The group had a 'whip' under Plaid Cymru rules, and no member of Plaid Cymru is allowed to be governed by the 'whip' of any other group.
6. I insisted that these matters had to be discussed with Plaid Cymru – both locally and nationally.
7. There were rules and regulations within the Council itself for dealing with any complaints against any Councillor.
8. I felt that this document was a 'witch hunt' against the two Councillors and that enormous pressure was being put on us to sign so that it would influence things when complaints were being collated about the two Councillors.

At the annual meeting of the Plaid Cymru Electoral Committee in Llangefni on 11 June 2010, I presented the document to the members and summarised the events that I have described above. The members concurred with my viewpoints that we should not, as members, sign such a document that named two members of the County Council (it was seen as a personal attack) and all of it without any sort of evidence. It was also agreed that no 'whip' could be chosen from any other group to act as whip for the Plaid Cymru Group. It was agreed that the group would not associate itself with the document, and that consideration should only be given to any alliance by following clear policies that concurred with Plaid Cymru's manifesto.

The document was again referred to the Plaid Cymru's National Council, and its recommendation to us was that the clauses that named the Councillors and suggested setting up the 'whip' system should be deleted. A policy document was drawn up for the Alliance by a Plaid Cymru Councillor, but the two offending clauses mentioned above had not been deleted.

During a series of 'Question Time' sessions held by Anglesey County Council's Executive with members of the public across Anglesey, I was told that the Leader of Anglesey Council at the time, Councillor Clive McGregor had discussed the document and that a list of the Councillors who had signed and supported the document had been made public. My name was included on that list. My inclusion on the list not only misled the public but was also an untruth. Despite my complaints about this, the list re-appeared yet again.

Interestingly enough, the Chair of the Recovery Board, Elan Closs Stephens suggested that both of us should have a conversation following a meeting of the full Council after news had broken that I had opposed the documents and officially declared Plaid Cymru's stance. She congratulated me on my stance and admitted that she and the other members of the Recovery Board had been very unhappy with the document and that she had asked David Bowles, the Interim Managing Director to withdraw the document, but to no avail.

The reason why I have outlined the above events to you is that I want you to be aware of the ill-natured climate that was in existence at the time, and the pressure that was put on members to exclude two members from the Council's work without any accusation against them being disclosed nor any evidence being put forward. There was a huge campaign afoot to exclude the two Councillors without giving them the opportunity to defend themselves in any way. I was not going to let my name be connected in any way with unconstitutional, unfair and possibly illegal activities.

Signed:

Councillor Rhian Medl
Rhosgerdd
14 Maes y Coed
Talwrn
Llangefni
Ynys Mon